# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 28 Hydref 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 4 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Tachwedd 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Trosglwyddo rhydd-ddaliad Ysgol Clogau, Bontddu yn ôl i fuddiolwyr y rhoddwyr gwreiddiol.**

---

**PENDERFYNIAD**

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adnabyddir fel Ysgol Clogau sydd wedi eu amlinellu'n goch ar y cynllun ynghlwm, yn cael ei drosglwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol, yn unol â gofynion y trosglwyddiad gwreiddiol i'r Cyngor.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---


**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad | 28/10/2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc:**

Trosglwyddo rhydd-ddaliad Ysgol Clogau, Bontddu yn ôl i fuddiolwyr y rhoddwyr gwreiddiol.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

Bod rhydd-ddaliad yr eiddo a adnabyddir fel Ysgol Clogau sydd wedi eu amlinellu'n goch ar y cynllun ynghlwm, yn cael ei drosglwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwyr gwreiddiol, yn unol â gofynion y trosglwyddiad gwreiddiol i'r Cyngor.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Yn ei gyfarfod 15.09.2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Ad-Drefnu Ysgolion.

Cydnabyddai'r Polisi fod y Cynllun Ad-Drefnu Ysgolion yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gwasanaeth.

Penderfynwyd y byddai safleoedd sydd yn cael eu datgan yn weddill i anghenion yn sgil y Cynllun Ad-Drefnu ysgolion yn cael eu gwaredu, a hynny yn unol â'r egwyddorion, polisïau gwaredu eiddo a'r gofynion statudol arferol. Rhan gwreiddiol o'r polisi ôl ddefnydd oedd rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd perchnogaeth o'r eiddo.

Penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno adroddiad gwerthu penodol ar gyfer pob safle ysgol am sêl bendith y Pwyllgor Ardal perthnasol. Yn dilyn yr ad-drefniad

cyfansoddiadol yn 2012, gorffwysa'r awdurdod cyfatebol gyda'r Aelod Cabinet Perthnasol.

Yn achos Ysgol Clogau mae'n rhaid gwyro oddi wrth y polisi uchod. Yn wreiddiol, rhoddwyd y safle i ragflaenydd Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu ysgol ar y safle. Mae cymal wedi ei gynnwys yn y trosglwyddiad gwreiddiol sy'n golygu fod gofyn i'r Cyngor drosglwyddo'r eiddo yn ôl i fuddiolwyr y rhoddwr gwreiddiol pan fo defnydd y safle fel ysgol yn dirwyn i ben.

Yn dilyn proses hysbysebu yn y wasg yn lleol ac yn genedlaethol, mae buddiolwr wedi ei adnabod.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae'r cymal sydd wedi eu gynnwys yn y trosglwyddiad gwreiddiol yn golygu nad yw'n bosibl i'r Cyngor wyro oddi wrth yr argymhelliad yn y daflen hon.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:** Dim


**Prif Weithredwr** – Dim

**Prif Swyddog Cyllid** – Yn yr achos yma bydd yr eiddo'n trosglwyddo'n ôl i olynwyr y rhoddwyr gwreiddiol a ni fydd derbyniadau cyfalaf. Dyma yw'r sefyllfa gyfreithiol sydd rhaid i'r Cyngor ymlynu iddo, a felly nid oes gennyf sylwadau pellach.

**Swyddog Monitro** – Dilynwyd proses briodol i adolygu y gyfraith a'r sail ffeithiol ar gyfer cyrraedd yr argymhelliad. Mae'r gofyn i drosglwyddo yn adlewyrchu barn gyfreithiol arbenigol ar y cyd a dderbyniwyd er cadarnhau priodoldeb statws y buddiolwr. Gallaf gadarnhau felly fod yr adroddiad yn crynhoi y sefyllfa gyfreithiol yn gywir.

**Aelod/au Lleol** – Y Cynghorydd Delyth Griffiths

Er nad yw y gymuned yn hapus deallaf beth yw y sefyllfa gyfreithiol a fod angen i'r Cyngor weithredu ar hyn.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd